# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 3

SIPSIWN A THEITHWYR

*Cwrdd ag anghenion llety*

### 101 Asesu anghenion llety

(1) Rhaid i awdurdod tai lleol, ym mhob cyfnod adolygu, gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy’n preswylio yn ei ardal neu sy’n cyrchu yno.

(2) Wrth gynnal asesiad o dan is-adran (1) rhaid i awdurdod tai lleol ymgynghori â’r cyfryw bobl sy’n briodol yn ei farn ef.

(3) Yn is-adran (1), ystyr “cyfnod adolygu” yw—

(a) y cyfnod hwnnw o flwyddyn sy’n dechrau pan ddaw’r adran hon i rym, a

[[F1](b) y cyfnod o 6 mlynedd sy’n dechrau â thrannoeth y diwrnod y daeth y cyfnod ym mharagraff (a) i ben, a phob cyfnod dilynol o 5 mlynedd sy’n dechrau â thrannoeth y diwrnod y daeth y cyfnod adolygu blaenorol i ben.**]**

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (3)(b) drwy orchymyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 101(3)(b) wedi ei amnewid (18.3.2021) gan Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (O.S. 2021/340), erglau. 1(2), **2(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 101 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 101 mewn grym ar 25.2.2015 gan O.S. 2015/380, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 101.